# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 7 Mawrth 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adnoddau |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Adnoddau. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad prosiectau'r Cynllun Strategol a mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio'r Cynllun **Peidio Talu'r ffi am dalu Treth Cyngor yn y swyddfa bost** i 2018/19 yn hytrach na 2017/18 fel y bwriad gwreiddiol.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

*Cyngor Effeithiol ac Effeithlon*

4.1. **C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith - Pwrpas y prosiect hwn yw arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor.**

4.1.1 Dros yr wythnosau diwethaf mae gwaith wedi mynd yn ei flaen er mwyn ystyried sut i leihau'r cyfnod ar gyfer 'check' mewn adolygiadau'r dyfodol. Er mwyn lleihau'r cyfnod hyn i'r dyfodol byddwn yn edrych i sicrhau gwell dealltwriaeth o fewn y tîm ar ba lefel o fanylder sydd ei angen a chael gwell rheolaeth ar weinyddiaeth a threfniadau cyfarfod y tîm.

4.1.2 Bu i'r Grŵp Prosiect hefyd ystyried os gellid cyflawni mwy mewn llai o amser yn dilyn cwestiwn a godwyd gan y Cabinet ynglŷn â'r angen am fwy o adnoddau er mwyn gwireddu Ffordd Gwynedd. Y farn oedd na fyddai adnodd ariannol yn ateb y broblem sylfaenol ar hyn o bryd. Yn hytrach mae angen amser digonol i'r diwylliant wreiddio ar draws y Cyngor. Roedd y Grŵp hefyd o'r farn y bydd hyfforddiant mewnol estynedig a gynllunnir ar gyfer Rheolwyr y Cyngor yn fwy o werth i brysuro'r broses.

4.1.3 Adroddodd y Tîm Adolygiad Priffyrdd i Bennaeth yr Adran, yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr ar ganfyddiadau'r gwaith o fewn y Gwasanaeth hyd yma ar y 23ain o Dachwedd. Awgrymir y byddai'n ddefnyddiol i'r Tîm Arweinyddiaeth dderbyn adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd ac Arweinydd y Tîm yn fuan fel eich bod yn cael blas ar yr hyn sydd wedi digwydd a'r camau nesaf.

4.1.4 Mae'r hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth o'r egwyddorion tu ôl i Ffordd Gwynedd bellach wedi ei gwblhau i Benaethiaid gan gwmni Vanguard a bydd yr hyfforddiant ar gyfer Uwch Reolwyr wedi ei gwblhau yn ystod mis Chwefror. Mae'r adborth iddo wedi bod yn bositif iawn.

4.1.5 Bydd y sesiynau hyfforddiant mewnol ar gyfer Rheolwyr yn cael eu cynnal o fis Ebrill ymlaen ac awgrymir y byddai'n fuddiol i Aelodau o'r Cabinet newydd fynychu'r sesiynau yn unigol er mwyn cael blas ar yr hyn sy'n cael ei gyflwyno.

**4.2 C2 Rhaglen datblygu arweinwyr - Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu**

**bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cynnal rhaglen o ddatblygiad personol ar gyfer pob aelod o Grŵp Rheoli'r Cyngor a'r Cabinet fydd yn eu harfogi i arwain ac atgyfnerthu'r diwylliant gwaith o fewn y Cyngor.**

4.2.1 Mae'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth hefo'r uwch swyddogion yn parhau i fynd yn ei flaen. Cynhelir cyfarfodydd gwerthuso parhaus rhwng y Pennaeth Adran a'r aelod o'r Tîm Rheoli gydol y flwyddyn (Cyfarwyddwyr Corfforaethol gyda'r Prif Weithredwr) tra bo'r ddau Aelod Cabinet perthnasol yn mynychu un o'r cyfarfodydd gwerthuso yn flynyddol yn unig.

4.2.2 Rydym yn darparu sesiynau cymell hefo Cymhellwr allanol ar gyfer 4 aelod o'r Grŵp Rheoli yn bresennol a hynny mewn ymateb penodol i anghenion sydd wedi'u hadnabod o ganlyniad i'r drafodaeth gwerthuso.

4.2.3 Mae gwaith yn mynd yn ei flaen hefyd er mwyn pwysleisio pa mor allweddol i Arweinwyr a Rheolwyr yw cynnal ac arddangos yr ymddygiadau arwain yn gyson yn eu gwaith dydd i ddydd.

4.2.4 Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod herio perfformiad diwethaf rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect edrych ar ddiffinio'r hyn yr ydym yn ei feddwl fel Cyngor o safbwynt arweinyddiaeth. Yn ogystal, rwyf wedi gofyn iddo gynnal sesiwn hefo'r Tim Arweinyddiaeth er mwyn darparu cyfle i ni roi barn os yw'r arweinyddiaeth wedi gwella, ac os ydyw, i adnabod pam fel y gellir gwneud mwy o hynny.

**4.3 C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) - Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd a'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi llunio Strategaeth TG.**

4.3.1 Ers i mi adrodd diwethaf mae cynnydd pellach wedi digwydd yng ngwaith y Strategaeth.

4.3.2 **Gweithio yn y maes:** Mae "app" wedi ei ryddhau i staff ar gyfer cofnodi casgliadau gwastraff, gyda'r manylion am y casgliad yn cael ei gofnodi yn erbyn manylion yr annedd. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i staff y Ganolfan Gyswllt wrth ymateb i ymholiadau trigolion.

4.3.3 **Arloesi:** Mae cyfleoedd wedi codi i gydweithio gyda nifer fechan o ddioddefwyr dementia mewn ardal dementia cyfeillgar sy'n cael ei sefydlu yn ardal Bontnewydd, Dinas Dinlle, Rhosgadfan a Waunfawr. Mae tîm bychan wedi bod yn profi nifer o declynnau tracio yn ddiweddar a bydd cydweithio gyda dioddefwyr yn ein gallu i addasu'r ddarpariaeth o amgylch anghenion y dioddefwyr.

4.3.4 **Darparu technoleg i gyflawni ac yn alluogwr i drawsnewid:** Fe ddiweddarwyd system ffôn Cyngor yn ystod 2015/2016, gan gyflwyno system oedd yn gwneud arbedion ariannol sylweddol drwy ddefnyddio rhwydwaith data'r Cyngor yn hytrach na thalu am wifrau ffôn i wneud galwadau, a hefyd yn uwchraddio system oedd wedi bod mewn defnydd ers 25 o flynyddoedd. Roedd ail gymal i'r

prosiect yma, sef cyflwyno "Skype for Business", yn cynnwys technoleg sy'n rhoi'r gallu i reoli ble mae rhywun yn derbyn ei alwadau ffôn (megis adre, ar ffôn symudol, ar y cyfrifiadur), gwneud galwadau fideo o'r ddesg, a chynnal cynadleddau llais a fideo. Bydd y system hon yn cael ei threialu gyda grŵp o ddefnyddwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

**4.4 C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS) - Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**

**Erbyn diwedd 2017, bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS.**

4.4.1 Erbyn hyn mae'r Adran Addysg i gyd wedi trosglwyddo i ddefnyddio'r system ac mae hwb ysgolion canolog wedi ei ddatblygu sy'n golygu bod mynediad traws adrannol i ddogfennau a gwybodaeth.

4.4.2 Yn ogystal, erbyn hyn mae 75% o staff yr Adran Gyllid wedi trosglwyddo i ddefnyddio'r system ac mae gwaith paratoi wedi cychwyn hefo'r Adran Rheoleiddio gyda'r bwriad o gyflwyno'r system rhwng mis Mawrth a Mai.

4.4.3 Rhagwelir y bydd yr holl Adrannau wedi trosglwyddo i ddefnyddio'r system erbyn diwedd mis Hydref 2017.

## Cynllunio Ariannol

**4.5 CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth - Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu.**

4.5.1 Ar gyfer 2016/17, roedd y Strategaeth Ariannol yn gofyn am arbedion pellach o £1.24m. Mewn ymateb mae gwerth £1.04m o gynlluniau wedi'u datblygu ac wedi derbyn cymeradwyaeth i weithredu gan y Cabinet. Mae un cynllun arall gwerth £200k i'w gyfeirio at sylw'r Cabinet yn y misoedd nesaf ac os yw'n cael ei gymeradwyo mi fydd yn dod a'r cyfanswm am y flwyddyn i £1.24m.

4.5.2 Mae'r gofynion arbedion ar gyfer 2017/18 yn cael sylw ar hyn o bryd ac mae'r tafluniad diweddaraf yn rhagweld fod angen £1.082m o arbedion pellach. Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.082m o gynlluniau ar gyfer 2017/18.

4.5.3 Mae'r Tim Arweinyddiaeth hefyd wedi derbyn gwahanol senarios ynglŷn â faint o arbedion sydd angen i'w darganfod yn 2018/19 a 2019/20. Mae'r senario gorau yn taflunio bwlch o £6.352m, senario canolig yn £11.6m a'r gwaethaf yn £17.5m. Mae yna arbedion o £1.25m eisoes wedi ei gynllunio ar gyfer y cyfnod yma ac mae gwerth £3.5m o gynlluniau yn cael eu mireinio ar hyn o bryd cyn iddynt gael eu cyfeirio at sylw'r Cabinet. Os cymeradwyir y cynlluniau rheini bydd gwerth £4.75m o gynlluniau pellach ar gael rhwng 2018 a 2020.

4.5.4 Dros y misoedd nesaf byddwn yn cynllunio a datblygu opsiynau ar gyfer ymateb i'r bwlch ariannol sy'n weddill.

4.5.5 Gyda'r gwaith o ddatblygu **Model Amgen Gofal Oedolion** mae'r Tîm Arweinyddiaeth eisoes wedi derbyn manylion ynglŷn â chynlluniau arbedion amgen yr Adran ac yn gefnogol iddynt. O ganlyniad, ni fydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y pwnc yma ar hyn o bryd.

4.5.6 Mae gwaith o werthuso'r opsiynau ar gyfer y **Model Amgen Hamdden** a chael cyngor cyfreithiol ac ariannol ar faterion wedi cychwyn ac anelir i gyflwyno drafft o'r achos fusnes i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Mawrth.

## 5 PERFFORMIAD

5.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

### 5.2 ADRAN CYLLID

5.2.1 Ceir 11 o Wasanaethau o fewn yr Adran Cyllid. Rwyf wedi herio mesurau'r **Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Risg ac Yswiriant, Budd-daliadau, Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys a Cyflogau** ac mae'r perfformiad yn dderbyniol ar hyn o bryd.

5.2.2 Mae'r **Gwasanaeth Trethi** yn gyfrifol am gasglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigol. Gwelir fod y **Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tîm adfer ac a gyfeiriwyd at fudiad y CAB (Cyngor ar Bopeth) am gyngor dyledion ehangach (CD11.04)** wedi cynyddu i 92 ar gyfer chwarter 3 o'i gymharu â 68 yn chwarter 2 a 22 yn chwarter 1. Bu i ni drafod os yw'r rhai sydd wedi eu cyfeirio at Gyngor ar Bopeth yn talu'r ddyled ai peidio a chytunwyd y dylid edrych i gadw gwybodaeth ynghylch y niferoedd sydd wedi dod i gytundeb talu yn dilyn eu cyfeirio ac yn parhau i dalu.

5.2.3 Y **Gwasanaeth Incwm** sy'n gyfrifol am brosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm. Nodir bod llithriad bychan yn **Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (CD7.02)** o'i gymharu â'r un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol 1,055,863 yn 16/17 o'i gymharu â 1,022,023 ar gyfer yr un cyfnod yn 15/16 a 1,023,768 ar gyfer 14/15 ond yn well na 1,408,046 yn 13/14.


5.2.4 Rwy'n hapus fod y perfformiad o fewn yr hicynau disgwyliedig ond er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r tueddiadau dros amser rwyf wedi gofyn i'r Uned gasglu'r data ar gyfer y mesur hwn yn fisol yn y dyfodol ac i'w gyflwyno ar ffurf graff.

5.2.5 Mae'r **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg** yn darparu gwasanaeth ac yn cynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac effeithlon. Fe soniais yn y cyfarfod diwethaf fy mod wedi gofyn iddynt fesur **CD5.01 Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb** bob chwarter yn hytrach nac yn flynyddol ac ar ddiwedd yr ail chwarter roedd y perfformiad yn 0.0012 sy'n awgrymu ein bod yn rhagweld gorwariant bychan iawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o brofiad blynyddoedd blaenorol mae'r sefyllfa yn tueddu i wella yn ystod y chwarter olaf.

5.2.6 Fel Cyngor mae gennym rôl i sicrhau ein bod yn talu ein credydwyr yn gywir ac yn amserol a'r **Gwasanaeth Taliadau Credydwyr** sy'n gyfrifol am wneud hyn. Gwelir fod y perfformiad ar gyfer y mesur **Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) (CD6.01)** wedi gwella rhywfaint yn Chwarter 3 (90%) o'i gymharu â pherfformiad Chwarter 2 (86%) a Chwarter 1 (89%).

5.2.7 Fodd bynnag mae'r perfformiad rhywfaint yn is o'i gymharu â'r un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol (91% yn 15/16 a 94% yn 14/15 a 13/14). Byddwch yn ymwybodol fod gwaith eisoes wedi ei wneud hefo'r Adran Addysg a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn ceisio gwella perfformiad a gwelir fod rhywfaint o welliant wedi bod.

5.2.8 Mae'r Adrannau hyn yn parhau i dynnu'r gyfradd ar gyfer y Cyngor cyfan i lawr ac o ganlyniad rwyf wedi ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet perthnasol gan amlygu'r ffaith hynny a gofyn iddynt roi sylw i'r mater yn y cyfarfodydd herio perfformiad yn y dyfodol.




5.2.9 Pwrpas y **Gwasanaeth Pensiynau** yw gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran cyflogwr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. Nodir bod **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif (CD9.03)** wedi lleihau ar ddiwedd chwarter 3 i 4.00 o'i gymharu â 9.70 ar ddiwedd chwarter 2 a 7.40 ar ddiwedd chwarter 1. Mae hefyd yn welliant ar y perfformiad ar gyfer yr un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol (10.40 yn 15/16, 6.50 yn 14/15 a 5.70 yn 13/14).

5.2.10 Y prif resymau dros hyn yw bod ymdrech wedi ei wneud i wella'r broses gwirio gan newid trefniadau mewnol a chynyddu'r nifer o unigolion sy'n rhan o'r broses. Amser a ddengys os bydd modd cynnal yr un lefel yn y dyfodol ond byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa.

5.2.11 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel. Fel y soniais yn fy adroddiad diwethaf nid oeddwn o'r farn fod y set o fesurau oedd gan y Gwasanaeth yn cyfarch yr holl feysydd gwaith. Yn y cyfamser mae gwaith wedi ei wneud i ddatblygu mesurau ychwanegol a byddwn yn gallu adrodd arnynt o ddiwedd chwarter 4 ymlaen.

## 5.3 ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

5.3.1 Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith 5 o Unedau o fewn **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ac yn dilyn herio perfformiad y mesurau ar gyfer y Gwasanaeth **Datblygu'r Gyfundrefn, Dysgu a Datblygu a Cefnogol** rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau perthnasol.

5.3.2 Mae'n bwysig ein bod yn rheoli absenoldebau o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd. Y **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** sy'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth hyn ac rwyf ychydig yn bryderus fod y ffigwr ar gyfer y mesur **Nifer o ddyddiau o absenoldeb (CHR/002)** wedi cynyddu i 6.23 diwrnod ar gyfer y 3 chwarter cyntaf yn 2016/17 o'i gymharu â 5.99 ar gyfer yr un cyfnod yn 15/16, 6.07 yn 14/15 a 5.82 yn 13/14.

5.3.3 Fel yr adroddwyd y tro diwethaf rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth edrych ar raniad y salwch tymor byr a hir. Nodir fod dros 70% o'r cyfanswm dyddiau yn 15/16 yn salwch tymor hir ond mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn dadansoddi'r wybodaeth ac adnabod y rhesymau dros salwch. Ar gyfer y dyfodol rwyf hefyd wedi gofyn iddynt gyflwyno'r wybodaeth hyn ar ffurf graff er mwyn gallu cymharu ag adnabod tueddiadau yn haws.

5.3.4 Mae'r **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** yn gyfrifol am gynghori ar sut i warchod iechyd diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd a monitro ansawdd.

5.3.5 O edrych ar y mesur **Nifer o archwiliadau Iechyd a Diogelwch (ac yn deillio o hynny, nifer yr achosion diffyg cydymffurfiaeth)** nodir bod 11 o safleoedd risg isel, 8 o safleoedd risg cymedrol a 2 o safleoedd risg uchel. Wrth drafod yr enghreifftiau o ddiffygion a amlygwyd ar y safleoedd dan sylw daeth diffyg hyfforddiant i'r amlwg yn aml iawn a bod y sefyllfa yn tueddu i fod yn waeth o fewn ysgolion.

5.3.6 Er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth adnabod pa Benaethiaid Ysgolion sydd heb dderbyn hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gan ofyn i'r Pennaeth Addysg roi camau yn eu lle er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant. Fel cam pellach rwyf hefyd wedi gofyn iddynt gylchredeg neges i'r holl Reolwyr yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o safbwynt Iechyd a Diogelwch gan gynnig cefnogaeth iddynt os ydynt ei angen.

5.3.7 Bu i mi herio cynnydd y ffrydiau gwaith o fewn y **Cynllun Pobl** yn y cyfarfod herio perfformiad diwethaf. Gan fod nifer o ffrydiau gwaith o fewn y Cynllun rwyf wedi gofyn i'r Adran eu gosod ar y gofrestr risg Adrannol erbyn y cyfarfod nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i benderfynu ar y ffrydiau y bydd angen adrodd arnynt gan adrodd ar y rhai risg uwch yn unig i'r dyfodol.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

6.1 Rhagwelir mai 76% o gyfanswm cynlluniau arbedion 2016/17 yr **Adran Gyllid** fydd wedi ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Llithriadau yn unig a welir hefo tri chynllun, ac am resymau penodol, ond rhagwelir y bydd yr arbedion yn cael eu cynaeafu maes o law. Adroddwyd ers peth amser bod datrysiad parthed y cynllun C27 (Ail gaffael y rhwydwaith PSBA) yn destun sgwrs genedlaethol. Mae hon yn parhau, ac mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bod tebygrwydd y bydd yr arbedion yn cael eu gwireddu, ond bydd llithriad hyd 2018/19.

6.2 Ar y cyfan, ni ragwelir problem mewn gwireddu cynlluniau 2017/18. Fodd bynnag, mae her mewn gwireddu'r cynllun toriad rhif 13 (Peidio talu ffi am dalu Treth Gyngor yn y swyddfa bost) ac mae angen gwaith ymchwil pellach er ceisio datrysiad. Gan fod sefyllfa ariannol y Cyngor am y flwyddyn yn well nag oedd wedi ei ragweld, gofynnaf i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio'r cynllun i 2018/19.

6.3 Mae'r **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol. Dim ond 1 o'r cynlluniau sydd ddim ar y trywydd cywir a rhagwelir o bosibl y bydd angen darganfod modd amgen o wireddu'r arbediad ond mae hyn mewn llaw gan yr Adran.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn tynnu sylw at nifer o faterion o bwys. Byddwn yn ategu'r awgrym o adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith Ffordd Gwynedd yn yr Adran Briffyrdd; mae'n esiampl da o'r math o newid diwylliant yr ydym am ei weld. Yn ogystal, mae'r gwaith cynllunio ariannol, er yn faes lle rydym ar flaen y gâd mewn gwirionedd, yn parhau yn un sydd angen sylw cyson i sicrhau ein b od yn parhau felly.

Tra'n edrych ar y materion mawr a strategol hyn, rhaid cadw golwg hed ar ein perfformiad dydd i ddydd ac mae'n dda gweld yr Aelod Cabinet yn tynnu sylw at ddau beth a'i fod am edrych ymhellach arnynt:-

- Yr angen i roi sylw i ostyngiad bach yn ein perfformiad ar y mesur pwysig o dalu credydwyr
- Y dirywiad bychan mewn perfformiad o ran absenoldebau staff

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf gywirdeb yr elfennau cyllidol o'r adroddiad, a byddaf yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad